Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org Gwaelod-y-Garth Haf 2009

Tymor o Brysurdeb!

Do bu'n hen gyfnod bach 'bishi' ym Methlehem - Canu Corws yr Haleliwia, Cyngerdd Codi'r To, Bedydd, Priodas, Cyfarfod â meddyg BanglaCymru, Swper Haf a llawer mwy. Dyma rai atgofion o'r cyfnod – a diolch i bawb fu'n weithgar,

yn yr amlwg ac yn y dirgel.

Dydd Sul y gwasanaeth "Felly Carodd" yn niwedd Ebrill: (uchod) Plant yr Ysgol Sul; (dde uchod) Bedydd Gwenllian Elizabeth Meade Owen, merch Catrin a Stephen Meade ar yr un bore; (dde) Delyth Evans yn arwain corws yr Haleliwia. Fe fyddwch chi'n nabod y rhan fwyaf o'r gynulleidfa, reit siŵr! Aelodau unigol Bethlehem oedd yr unawdwyr a'r llefarwyr i gyd. Mae technegwyr blaengar CAIB wedi recordio'r cyfan. Unrhyw un sy'n dymuno prynu copi o'r CD "Felly Carodd" am £3, rhowch wybod i Wyn Jones.

Yn ôl pob golwg, bydd cyfanswm cyfraniadau Bethlehem i gronfa Bangla-Cymru wedi cyrraedd dros £3000 erbyn i'r siec gael ei gyflwyno yn ystod y Swper Haf i Wil Morus Jones. Cewch fwy o wybodaeth am y gwaith ar www.banglacymru.org.uk

Hefyd yn y rhifyn hwn:

- Neges Alun
- Ymweliad Dr Jishu o Bangla-Cymru
- Noson Codi'r To
- Bedyddio tri
- Priodas
- Taith y Cwrdd Merched
- Newyddion am aelodau
- Suliau Gorffennaf i Ragfyr

Ysgrifennydd Bethlehem:
Rhys Dafis
Rhif Ffôn:029 20 89 13 60
rhysdafis@aim.com

Taith y Merched!

I ferched y capel mae Mai yn fis arbennig. Wedi mwynhau gweithgareddau yn y festri ar hyd y flwyddyn, dyma ni nawr yn cael mynd am drip! Cyfarfod yn Radur am 9.30 i fynd ar fws moethus Dafydd. Diolch eleni eto am ei haelioni a'i barodrwydd i gludo criw o ferched siaradus iawn o le i le – a'r wên yn parhau drwy'r dydd! Fel y trefnwyd, dyma ni'n cyrraedd Castell Cyfarthfa ym Merthyr Tudful. Ar ôl i Anthony Bacon sefydlu gwaith haearn Cyfarthfa ym 1765, mi ddaeth yn enwog o dan reolaeth fedrus y teulu Crawshay. Roedd eu prif gartref yn Reading ond ym 1824 fe adeiladwyd Castell Cyfarthfa a gostiodd £30,000. Bu'r teulu'n byw yno hyd 1910 pan werthwyd yr ystâd i'r Fwrdeistref Sirol am £15,000 ac yn awr mae'n amgueddfa boblogaidd iawn. Mae'r cyntedd wedi ei gynllunio i greu naws cartref teuluol, hynafol iawn. Wedi edmygu'r tariannau bach a'r ffenestri lliw fe benderfynon ni ei bod yn amser coffi. Naws Fictoraidd sydd i'r ystafell fwyd ac wedi mwynhau paned yno, roedden ni'n awyddus i symud ymlaen i'r stafelloedd eraill. Mae orielau'r islawr yn darlunio 3000 o flynyddoedd yn hanes Merthyr. Adroddir hanes merthyrdod Tudful – y santes Geltaidd Gristnogol a roddodd ei henw i'r dref ac fe nodir bod y Rhufeiniaid wedi bod yma. Gwelir hanes ffermio yn yr ardal cheir golwg ar ddiwydiannau cynnar yn nyddu a gwehyddu. Yna mae hanes y diwydiant haearn a stori locomotif stêm Richard Trevithick. Mae yma dipyn o hanes gwleidyddol y dref, fel gwrthryfel Merthyr ym 1831, cell Dic Penderyn a datblygiad y mudiad llafur. Ceir yma hefyd ddarlun o grefydd anghydffurfiol y dref a hanes rygbi yn yr ardal. Wrth ddringo o orielau'r islawr, fe ddaethon ni i'r stafelloedd swyddogol yn llawn portreadau o'r teulu a chasgliad o drysorau Eifftaidd, Groegaidd a Rhufeinig. Yna fe welson ni gasgliad llestri'r amgueddfa yn cynnwys darnau Nantgarw, Abertawe ac Ewenni ymhlith eraill. Wrth gerdded trwy un coridor dyna lle 'roedd casgliad hyfryd o luniau dyfrlliw a thecstilau. Yn eu mysg, roedd Salem gan Curnow Vosper. Wedi mwynhau pob munud yn y castell ac addo dod 'nôl i weld llawer mwy, dyma ni'n dychwelyd i'r bws a theithio i'r Fenni. Erbyn hyn, roedd hi'n bryd chwilio am ginio a phawb yn dewis yr hyn oedd yn apelio. Canmoliaeth uchel i'r bwyd ac ychydig amser yn weddill i edrych o amgylch y siopau – a rhai'n cael eu temtio i brynu rhywbeth. 'Nôl ar y bws wedi mwynhau diwrnod hyfryd gyda'n gilydd a dim gwaith paratoi pryd o fwyd y noswaith honno!

Eirlys Davies, Pentyrch



Llongyfarchiadau i Elen Clwyd Huws, Ffwrnes Blwm, ar ei phriodas â Steffan Rhys Roberts, ym mis Mai.

Neges gan y Gweinidog

COFIO?

Bendith ar y BBC! Oni bae am y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig ni fuasai neb arall wedi cofio gorseddu Siarl yn Dywysog Cymru ddeugain mlynedd yn ôl. Ni welwyd y tywysog yng Nghymru, lai fyth yng Nghaernarfon, ar Orffennaf y cyntaf eleni. Doedd hynny nac yma nac acw gan y BBC a chafwyd oriau o radio a theledu yn codi cwestiynau cyfansoddiadol a chodi hen grachod.

Ond 'cofio' oedd y peth. Beth yw'r broses o gofio? Sut mae cof yn gweithio?

I'r gwyddonydd cof yw canlyniad cemegol i effaith trydanol sy'n cynhyrfu celloedd yn yr ymennydd. (Os oeddech chi'n gwrando ar 'Dweud eich Dweud' fore Mercher cynta'r mis – eto ar y BBC - fe glywsoch hyn o'r blaen!). Mae'r synwyryddion yn y croen a'r cyhyrau yn anfon negeseuon i'r ymennydd. Ychwanegwch at hynny beth y mae'r llygad yn ei weld a dyna elfen arall o 'gofio'.

Ar ben hyn oll, mae 'ymwybyddiaeth' yn creu cof oesol, cof cyntefig, cof personol – y drysorfa o brofiadau unigol sy'n perthyn i chi ac i neb arall. Mae cof yn gysylltiedig â deallusrwydd, gallu, diddordeb, ysgogiad ac â chymhellion. Er fod cyfrifiadur yn rhyfeddod o ran storio ac atgynhyrchu ffeithiau, peth cwbl beirianyddol yw cof hwnnw. Mae'n cofio heb ddiddordeb na chymhelliad.

Ac yna, mae twyll mewn cof. "Rhoswch chi, faint o flynyddoedd sydd 'na er ... wel, mae 'na ddwy dair blynedd." Ond hwyrach fod saith wyth yn nes ati. A thrist o beth yw gweld cof pobol yn pallu a rhan o'u personoliaeth yn darfod.

Mae 'na rhai profiadau wedi eu serio ar y cof; profedigaethau a thrasiedïau gan fwyaf. Bydd rhai pobol yn cofio ble'r oedden nhw y dydd y llofruddiwyd Kennedy. A'r to iau, sy'n "gutted" ac yn "devastated" yn cofio Michael Jackson!

Cof Cenedl? Dyw Tywysog Cymru ddim gwerth ei gofio, pob parch i'r dyn. Ond mae Tywysog Tangnefedd yn werth ei gofio. "Cof am y cyfiawn Iesu ..."

R Alun Evans

Suliau Gorff - Rhagfyr 2009

GORFFENNAF
5 Parch Dafydd Andrew Jones
12 Parch R Alun Evans (**Cymun**)
Swper haf am 5.00
19 Sul y Cyfundeb
26 Parch R Alun Evans

AWST
2 Parch Eirian Rees (**Cymun**)
yn y Tabernacl, Efail Isaf (10.45)
9 Gwasanaeth ym Methlehem
(yng ngofal Eirlys Davies)
16 Tabernacl, Efail Isaf (10.45)
23 Gwasanaeth ym Methlehem
(yng ngofal Ian Hughes)
30 Tabernacl, Efail Isaf (10.45)

MEDI
6 Parch Lona Roberts
13 Parch R Alun Evans (**Cymun**)
20 Parch Tom Defis
27 Parch R Alun Evans

HYDREF
4 Parchg. Cynwil Williams
11 Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
18 Cwrdd Diolchgarwch y Plant
25 Parchg. R. Alun Evans

TACHWEDD
1 Parchg. Gareth Reynolds
8 Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
15 Gwasanaeth Ardal
Gorllewin Caerdydd
22 Parchg. R. Alun Evans
29 Parchg. D.H.Owen

RHAGFYR
6 Bore – ymweld â chartre'r henoed
Hwyr – Naw Llith a Charol]
13 Bore – Ymarfer i'r Plant
Hwyr – Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)
20 Gwasanaeth Nadolig y Plant
25 Gwasanaeth Dydd Nadolig
27 Parchg. R. Alun Evans

Cydymdeimlwn â'r canlynol:

- **Lowri Griffiths,** Pentyrch, a'r golli ei thad yn Llangristiolus, Ynys Môn.
- **Brian Davies**, Creigiau, ar golli ei fam yn Llangennech, Sir Gaerfyrddin.
- **Delyth Wade,** Pentre-poeth, ar golli ei mam yng Nghastell Nedd
- Teulu'r **Parchedig Eifion Powell** (Minny St. gynt). Fe gofiwch mai ef oedd yn llywyddu cyfarfod sefydlu R. Alun Evans fel ein gweinidog y llynedd.

Llongyfarchiadau i:

- **Martin Huws,** ar gyhoeddi ei nofel newydd "Mae Heddwch yn brifo". Cafodd ei lansio yn Nhafarn yr Arad, Yr Eglwys Newydd, 10 Gorffennaf. Derbyniodd y nofel ganmoliaeth hael yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen ac mae'n dilyn Vic, cyn-filwr yn rhyfel y Malfinas.

Anfonwn ein cofion at:

- **Enid Davies**, Creigiau, a **Bethan Cartwright**, Radur, **John Evans,** Radur a **Iestyn Samuel,** Tongwynlais - i gyd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddar.
- **Idris Hughes,** sydd yn cadw golwg arnon ni gyd o hirbell! Mae wedi gadael Ysbyty Rookwood i gael gofal yn The Manor House, Sain Hilari, ac yn falch iawn o weld y cyd-aelodau sy'n ymweld ag e.
- **Ann Morfudd Jones,** (mam Gwenno Huws, Pontcanna), sydd wedi i bod lawr yma ers peth amser ac wedi treulio cyfnodau yn ysbyty Llandochau.

"Gwe"-lod y Garth

Mae llawer rhagor o wybodaeth nag sy'n y bwletin hwn, i'w gael ar ein gwefan:

www.gwe-bethlehem.org

Cewch fanylion am weithgareddau Bethlehem; enwau'r pwyllgorau a'r cymdeithasau, y swyddogion a llawer iawn mwy!

Gwnewch ddefnydd o'r dechnoleg. Gwell fyth, byddwch wyrddach a dewiswch ddarllen y Bwletin yn y fan honno! Mantais arall, ydi gallwch chi gynyddu maint y dudalen a'r print fel mynnoch chi.

Y tro hwn, er mwyn annog rhagor ohonoch i dderbyn eich copi drwy neges e-bost, rydyn ni'n anfon neges at bawb sydd wedi rhoi eu cyfeiriad electronig i ni.

Ond byddwn yn cynnig copi lliw llawn ar bapur i unrhyw un sy'n gwneud cais amdano.

Te Tabernacl

Ar hyn o bryd mae gennym "fanc" o wirfoddolwyr ym Methlehem sy'n fodlon paratoi brechdanau i'r digartref yn Eglwys y Tabernacl ar brynhawn Sul. Dim ond rhyw bedair gwaith y flwyddyn y mae gofyn i aelodau Bethlehem gymryd eu tro. Fe gytunwch, mae'n siŵr, fod y gweithgaredd yn rhan annatod o swyddogaeth yr Eglwys. Yn naturiol ddigon mi fydden ni yn croesawu enwau newydd i chwyddo rhengoedd y "banc"!
Tybed os allech chi gynnig rhyw ddwy awr o'ch hamser i dywallt paned ac i gynnig brechdan? Unwaith neu ddwy waith y flwyddyn?
Beth amdani? Cysylltwch â Gwenno Huws.

~ ~ ~ ~

Edrych yn ôl (ac ymlaen) at y Nadolig!

Un sylw wnaed wrth adrodd am y noson o ganu carolau o gwmpas y tai yng Ngwaelod-y-Garth llynedd oedd fod angen rhagor i guro drysau! Felly, eleni, os na allwch chi ganu, allwch guro drysau dros yr achos? Casglwyd tua £110 mewn dim o dro! Gyda llaw, cafwyd un cyfraniad hael iawn (£150) i'n helusen pan benderfynodd aelod anfon cyfarchiad e-bost yn lle cardiau Nadolig. Gwnaeth un arall dorchau Nadolig a chasglu £50 amdanyn nhw i'r elusen.

Cyfeiriad ein gweinidog :

Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,
Y Wenallt, 8 Heol Elmgrove,
Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 2BW
Ffôn: 02920 520 854
e-bost: ralun.evans@virgin.net

TOI A RHOI

I ddathlu cwblhau gwaith ail-doi'r Capel a chefnogi gwaith yr elusen BanglaCymru, cynhaliwyd cyngerdd arbennig 'Codi'r To' ym Methlehem, ar Nos Wener, Mai'r 8fed. Diolchwn yn arbennig i'r rhai fu'n cymryd rhan - Côr Merched Canna **(uchod),** Côr Plant Ysgol Gwaelod y Garth (ynghyd â dau o'r staff sy'n aelodau yma - Iwan Ellis, y prifathro, a Tania Wilson Price), Marged a Delwyn Siôn ac R. Alun Evans yn arwain y noson. Diolch hefyd i chithau am eich cefnogaeth, fel cynulleidfa.

Fel dywedodd Rhys Dafis, Ysgrifennydd y Capel: "Rydan ni mor llawen ein bod ni wedi llwyddo i godi'r arian a chael y to newydd yn ei le. Bydd hyn yn sicrhau diddosrwydd y Capel ar gyfer addolwyr y dyfodol. Pa ffordd well i ddathlu na chyngerdd gan blant y pentref ac artistiaid lleol eraill, a cheisio helpu BanglaCymru i roi bywyd gwell i blant llai ffodus ar yr un pryd."

Yna, ar fore Sul y dydd hwyaf, Mehefin 21, bu congl-feini'r gronfa "BanglaCymru" yn ein hannerch ym Methlehem gan ddisgrifio peth o'r gwaith llawfeddygol ar wefus/tafod hollt sy'n digwydd ym Mangladesh. **Ar y dde uchod,** gwelir un o lawfeddygon a chydlynydd y prosiect, Dr Jishumoy Dev. Wil Morus Jones, Sylfaenydd a Chadeirydd y gronfa yng Nghymru, sy'n annerch yn y llun arall.

Bedyddio tri

(o'r chwith) Ian, Elinor a Dylan Hughes, adeg eu bedyddio gan y gweinidog ar Sul olaf Mehefin.

Rob Lamb a'r Llewod

Ydych chi'n nabod y genhinen ar y dde? Un o'n haelodau, Robert Lamb, Llantrisant, yn ystod gêm Y Llewod yn erbyn y "Southern Kings" yn Ne Affrica!